



Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

(01443) 680800 swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

29 Ionawr, 2021

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Byddwch, fel ninnau, wedi clywed y cyhoeddiad heddiw am gynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cymru i rai disgyblion ddechrau dychwelyd i'r ysgol ar ôl hanner tymor os yw cyfraddau Covid-19 yn parhau i ostwng. Rydym yn croesawu hyn yn fawr wrth gwrs ac mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi gofyn i ni gyfathrebu'r prif bwyntiau yma i chi heddiw:

1. *Bydd ysgolion yn parhau i fod ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol hyd at hanner tymor. Bydd pob disgybl arall yn parhau i ddysgu o bell yn ystod y cyfnod yma.*
2. ***Os bydd cyfraddau trosglwyddo Covid yn parhau i ostwng***, bydd disgyblion yn dechrau dychwelyd i'r ysgol yn raddol o 22^{ain} Chwefror, gan ddechrau gyda disgyblion ieuengaf Cymru.
3. *Bydd Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, Undebau Llafur a grwpiau cynrychioliadol i gynllunio ar gyfer croesawu'r disgyblion yma yn ôl i'r ysgol.*
4. *Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan ysgolion, rhieni a gwarcheidwaid ddigon o amser i gynllunio ar gyfer unrhyw newid a'r gobaith yw y bydd Cynghorau ac ysgolion ledled Cymru yn cael gwybod mewn da bryd fel bod modd i ni gynllunio ar gyfer newidiadau allweddol mewn modd strategol. Rwy'n gwybod yr hoffem ni i gyd sicrhau bod y cam pontio nesaf mor ddi-dor â phosibl.*
5. *Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y **bydd ysgolion ar gau i bob plentyn dros hanner tymor (15fed – 19eg Chwefror)**. Bydd dim darpariaeth gofal plant brys felly dros yr hanner tymor.*

Byddwn yn barod i agor ein drysau cyn gynted ag y cawn yr hawl i wneud hynny, ac edrychwn ymlaen at dderbyn ein holl ddisgyblion nôl i'r ysgol pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Cadwn mewn cysylltiad gyda chi pan ddaw mwy o wybodaeth.

Dysgu o Bell

Ar ddiwedd wythnos gynhyrchiol arall, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiwyll i chi unwaith eto am eich cefnogaeth wrth i ni barhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn dysgu a gwneud cynnydd. Gofynnwn yn garedig i chi barhau i annog a chefnogi eich plentyn wrth iddo ymgymryd â dysgu o bell. Cofiwch hefyd i gysylltu gydag Arweinydd Blwyddyn eich plentyn os hoffech drafod unrhyw fater; rydym yma i'ch cefnogi.

Gan nad oes manylion dychwelyd pendant gennym eto, mae'n hollbwysig bod y disgyblion yn parhau i elwa gymaint â phosibl o'r ddarpariaeth dysgu o bell. Mae mis bellach ers dechrau'r tymor ac ers i ni yn raddol amrywio ein dulliau dysgu o bell, trwy gynnig amrywiaeth o wersi byw a thasgau ar lein. Mae'r athrawon yn canmol agwedd y disgyblion at waith ac mae mor braf gweld cymaint o'n disgyblion yn bresennol ac yn cyfrannu yn ystod ein sesiynau byw. Teimlwn hefyd fod cynnig

sesiynau bugeiliol boreol wedi rhoi cyfle i drafod a chefnogi lles y disgyblion tra'u bod yn dysgu i ffwrdd o'r ysgol. Bwriadwn barhau â hyn dros yr wythnosau nesaf. Dymunwn ddiolch i chi hefyd am eich adborth gwerthfawr wrth i ni barhau i fireinio ein darpariaeth.

Fel rhan o'n hymdrechion i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion a staff o **Wythnos Iechyd Meddwl Plant** wythnos nesaf, rydym yn addasu ein amserlen arferol ar gyfer wythnos nesaf (**Chwefror 1af-5ed**). Ar gyfer yr wythnos hon, bydd ein sesiynau ffurfiol yn gorffen ar ddiwedd sesiwn 5 am 2.20pm. Bydd Sesiwn 6 yn cael ei disodli er mwyn i ddisgyblion ymgymryd gyda gweithgaredd awyr agored, er enghraifft mynd am dro gyda'r teulu neu mynd i redeg. Gobeithiwn y bydd yr amser yma yn gyfle gwerthfawr i holl aelodau ein cymuned, yn ddisgyblion a staff, i adfer ychydig o'u hegni wrth i ni nesáu at ddiwedd hanner tymor cynhyrchiol ond prysur. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch hon yn ein poster diweddariad wythnosol isod. Yn ystod yr wythnos ddilynol, sef wythnos olaf yr hanner tymor (8-12^{fed} o Chwefror), byddwn yn ail-gychwyn ar ein diwnodau dysgu 6 sesiwn arferol, a bydd gwersi yr wythnos honno yn cynnig cyfle i gefnogi iechyd a lles meddyliol ein disgyblion, yn ogystal â chyfle i gydnabod ymdrechion, ymgysylltiad a chynnydd yn ystod yr hanner tymor.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod heriol a digynsail hwn. Cofiwch gadw mewn cysylltiad gyda ni, a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir,



Craig Spanswick

Dirprwy Bennaeth



Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

(01443) 680800 swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

29 January, 2021

Dear Parent / Carer,

You will have heard the announcement today of the Welsh Government's proposed plans for the return of some pupils to school after half term if Covid rates continue to fall. We welcome this announcement of course and the Director of Education has asked us to convey the points below to you today:

1. *Schools will continue to be open to vulnerable children and the children of critical workers up until the half-term. All other learners will continue to access remote learning during this period.*
2. ***If the transmission of Covid continues to decline***, pupils will start returning to school in a phased way from 22nd February, beginning with Wales' youngest learners.
3. *Ministers and Welsh Government officials will continue to engage with Local Authorities, Trade Unions and representative groups to plan for the return of learners to school.*
4. *Welsh Government is committed to ensuring that schools, parents and carers have plenty of time to plan for change and it is hoped that Councils and schools across Wales will receive timely notifications so that we are able to strategically plan for key changes. I know this is something that we all want to ensure that this next transitional phase is as seamless as possible.*
5. *Welsh Government have confirmed that schools will **be closed for all learners over half-term** (15 – 19th February 2021). There will therefore be no emergency child care provision over the half term.*

We will be ready to open our doors as soon as we are able, and we look forward to welcoming all pupils back to school when it is safe to do so. We will inform you as soon as more details are received.

Distance Learning Update:

At the end of yet another productive week, I wish to take this opportunity to thank you all for your support as we work together to ensure your child continues to learn and make progress. We kindly ask you to maintain your encouragement and support your child to engage in their learning. Please also remember to contact your child's Head of Year if you wish to discuss a matter; we are here to support you.

As we do not yet have definite return details, it is vital that pupils continue to benefit as much as possible from online learning. It has been a month since the start of term now and during this period we have gradually varied and developed our online learning provision, by offering a variety of live lessons and online tasks. The teachers consistently praise the pupils' attitude to learning and it is so pleasing to see so many pupils attending and participating during live sessions. We also feel that the daily pastoral sessions have provided an opportunity to 'check in' and to discuss pupils' wellbeing while learning at home. We plan to continue this over the coming weeks. We also wish to thank you for all your feedback as we continue to refine our provision.

As part of our efforts to raise awareness of **Children's Mental Health Week** next week, we are revising next week's timetable (**1-5th February**). Formal sessions will finish at the end of Session 5 at 2.20pm. Session 6 will be replaced with an opportunity for your child to take some time out with other family members and enjoy some fresh air whilst walking / exercising. We hope this will give all members of our school community a valuable opportunity to recharge their batteries as we move towards the end of a busy but productive half term. More information on this initiative is enclosed in this week's flyer update below. During the following week, the last week of this half term, (8-12th February), we will resume with our normal 6 session school day, and lessons will focus on supporting pupils' wellbeing and mental health as well as recognising pupils' efforts, engagement and progress this half term.

Once again, we would like to thank you as parents for your ongoing support and understanding during this difficult and unprecedented time. Please continue to keep in touch, and stay safe.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Craig Spanswick', enclosed within a hand-drawn oval border.

Craig Spanswick

Deputy Head

PYTHEFNOS CODI YMŴYBYDDIAETH
IECHYD MEDDWL PLANT
FORTNIGHT TO FOCUS ON
CHILDREN'S MENTAL HEALTH



#1

1.2.21 - 12.2.21

W1: 1 - 5/2/2021

Er mwyn i ni gyd gandbwyntio ar ein lles, yn hytrach na'r wers 6 arferd yr wythnos hon, bydd cyfle dyddid gyda chi i fynd am dro a chael awyr iach a chyfle i ymlacio gyda'ch teulu. Yr unig beth rydym am i chi wneud yw tynnu llun o'ch golygfa wrth fynd am dro neu wneud ymarfer corff, a'i rannu gyda ni ar Drydar : #lles6 #6fitnessfix

In order to prioritise wellbeing, rather than our usual daily Lesson 6, we will ask you to take time to get some fresh air and exercise with your family if possible. All we ask is that you share a picture of your walk via Twitter: #lles6 #6fitnessfix



W2: 8 - 12/2/2021

Bydd rhai gwersi yr wythnos hon yn canolbwyntio ar agweddau amrywiol o les. Bydd adrannau hefyd yn cydnabod ymdrech, gwytnwch ac ymrwymiad eu disgyblion ar ddiwedd hanner tymor herid ond llwyddiannus o ddysgu o bell.

Some of this week's lessons will include activities focused on supporting wellbeing. Departments will also be recognising individuals' effort, resilience and commitment at the end of a challenging but successful half term of distance learning.

#2



M aeth grauy'n ddigon da/ Y our best is good enough

